**Fersiwn Hawdd ei Deall**

# Beth i'w ddisgwyl pan fyddwch chi'n ymweld â Senedd Cymru (y 'Senedd')

## Canllaw ar gyfer pobl ag awtistiaeth

Fersiwn Hawdd ei Deall yw hon o daflen y Senedd **‘Gwybodaeth i bobl ag awtistiaeth am faterion yn ymwneud â’r synhwyrau’**

Hydref 2014

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon




Fersiwn hawdd ei deall yw’r daflen hon. Mae’r geiriau a’r hyn maen nhw’n ei feddwl yn hawdd i’w darllen a’u deall.

Efallai y bydd angen help arnoch i ddarllen a deall y ddogfen hon. Gofynnwch i rywun rydych chi’n ei adnabod i’ch helpu.



Efallai y bydd rhai geiriau yn anodd i’w deall. Mae’r rhain wedi cael eu hysgrifennu mewn **glas trwm**. Mae ystyr y geiriau hynny mewn bocs o dan y gair.

Pan fydd y ddogfen yn dweud ‘ni’, mae hyn yn meddwl y Senedd.

Os hoffech chi gael fersiwn mewn print bras, Braille, tâp sain neu iaith arall, cysylltwch â:



Gwasanaeth Archebu a Gwybodaeth y Senedd, y Senedd, Canolfan Ymwelwyr y Gogledd, Parc y Tywysog, Rhodfa’r Tywysog, Bae Colwyn, Conwy LL29 8PL



Ffôn: 0845 010 5500 neu 01492 523200

E-bost: [cysylltu@senedd.cymru](mailto:cysylltu@senedd.cymru)

Gwefan: [http://www.senedd.cymru](http://www.senedd.cymru)

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn Hawdd ei Deall gan Anabledd Dysgu Cymru gan ddefnyddio Photosymbols 5.

# Cynnwys

Tudalen


Cyflwyniad: Eich ymweliad â'r Senedd 5

- Ynglŷn â'r Senedd 6
- Ein hadeiladau 7

Y pethau fydd yn digwydd pan fyddwch chi'n cyrraedd 8

Y pethau y gallech chi eu gweld, eu clywed, eu harogli a'u cyffwrdd yn y Senedd 10

Y pethau y gallech chi eu gweld 10

Y pethau y gallech chi eu clywed 11

Y pethau y gallech chi eu harogli 13

Y pethau y gallech chi eu cyffwrdd 13

Os bydd angen i chi orffwys 14

Rhagor o wybodaeth 14

Geiriau anodd 15

# Cyflwyniad: Eich ymweliad â'r Senedd

Rydyn ni am i chi gael amser da pan fyddwch chi'n ymweld â'r Senedd.

Rydyn ni am wneud yn siŵr eich bod chi'n hapus a thawel eich meddwl. Rydyn ni am wneud yn siŵr nad oes dim yn eich cynhyrfu

Mae'r daflen hon yn sôn am y pethau y gallech eu disgwyl pan fyddwch chi'n ymweld â'n hadeiladau.

Mae:

- pethau y gallech chi eu gweld
- pethau y gallech chi eu clywed
- pethau y gallech chi eu harogli
- pethau y gallech chi eu cyffwrdd.

Efallai bod rhai o'r pethau hyn yn newydd i chi.

## Ynglŷn â’r Senedd

Mae’r Senedd yn grŵp o 60 o bobl o wahanol rannau o Gymru.

Mae’r bobl hyn yn cael eu galw’n Aelodau o'r Senedd.

Eu gwaith yw siarad ar ran y bobl yn eu rhan nhw o Gymru a’u helpu gyda’r pethau sydd eu hangen arnyn nhw.

Mae Aelodau o'r Senedd:

- yn sefyll dros y pethau sy’n bwysig i bobl Cymru
- yn gwneud deddfau newydd ar gyfer Cymru
- yn gwneud yn siŵr bod Llywodraeth Cymru yn gwneud beth y dylai wneud.

## Ein hadeiladau

Mae gan y Senedd dri adeilad:

- Y Senedd. Dyma ble mae Aelodau o’r Senedd yn gwneud deddfau ac yn siarad am bethau sy’n cael effaith ar bobl Cymru.

- Tŷ Hywel. Dyma ble mae swyddfeydd Aelodau o’r Senedd a’u staff.

- Y Pierhead. Dyma ble rydyn ni’n cynnal rhai o’n digwyddiadau.

# Y pethau fydd yn digwydd pan fyddwch chi’n cyrraedd

Yn adeiladau’r Senedd a Thŷ Hywel mae gennym ni system ddiogelwch.

Ar ôl cyrraedd y Senedd neu Dŷ Hywel, bydd yn rhaid i chi fynd trwy archwiliad diogelwch.

Byddan nhw’n gofyn i chi wagio eich pocedi i mewn i flwch.

Byddan nhw’n gofyn i chi dynnu eich côt a rhoi eich bag drwy sganiwr.

Bydd eich côt, eich bag a’r pethau oedd yn eich poced yn cael eu rhoi yn ôl i chi ar ôl yr archwiliad diogelwch.

Dydyn nhw ddim yn gadael i chi ddod ag unrhyw beth peryglus – fel gynnau, cyllyll neu siswrn.

Os byddwch chi’n dod â rhywbeth peryglus gyda chi, bydd yn cael ei dynnu oddi arnoch. Efallai na fyddwch chi’n ei gael yn ôl.

Wedyn, fe fyddwch chi’n cerdded trwy fwa. Bydd y bwa yn bipian os bydd gennych chi unrhyw beth metel arnoch chi.

Os oes awtistiaeth arnoch chi, gallwch chi ofyn iddyn nhw ddiffodd y bip.

Os bydd y bwa yn bipian wrth i chi gerdded drwyddo, bydd swyddog diogelwch yn edrych beth sydd wedi achosi'r bipian gyda **synhwyrydd** llaw.

Mae **synhwyrydd** yn beiriant rydyn ni'n ei ddefnyddio i ddod o hyd i rywbeth, fel metel.

Bydd y swyddog diogelwch yn symud y synhwyrydd o amgylch eich corff. Ni ddylai'r synhwyrydd gyffwrdd â'ch corff.

# Y pethau y gallech chi eu gweld, eu clywed, eu harogli a'u cyffwrdd yn y Senedd

## Y pethau y gallech chi eu gweld:

Bydd swyddogion heddlu arfog wrth y ddesg ddiogelwch ac yn cerdded o amgylch ein hadeiladau.

Os byddwch chi'n edrych dros un o'n balconïau, efallai y byddwch chi'n teimlo'n benysgafn oherwydd bod y balconi mor uchel.

Efallai bod goleuadau llachar mewn rhai ystafelloedd. Gall rhai ystafelloedd fod yn dywyll iawn. Mae'r golau'n gallu newid tra byddwch chi yn yr ystafell.

Efallai y byddwch chi'n gweld lluniau ar y wal. Chewch chi ddim cyffwrdd â'r lluniau.

Efallai y byddwch chi'n gweld arwyddion ar gyfer **systemau dolen sain**. Mae'r rhain ar gyfer pobl fyddar ac sy'n defnyddio cymorth clywed.

Mae **system dolen sain** yn fath arbennig o system sain i helpu pobl sy'n defnyddio cymhorthion clywed i glywed yn well.

## Y pethau y gallech chi eu clywed:

- **Cloch y Cyfarfod Llawn –** Mae'r gloch hon yn dweud wrth Aelodau o'r Senedd i fynd i'r Siambr. Y Siambr yw enw'r ystafell ble mae Aelodau o'r Senedd yn cyfarfod.

Dim ond yn adeilad y Senedd mae Cloch y Cyfarfod Llawn yn canu. Mae'n swnllyd iawn. Gallwch wrando ar y sŵn ar wefan y Senedd: https://senedd.wales/cy/visiting/Pages/Visitors-autism.aspx.

Mae Cloch y Cyfarfod Llawn yn canu am 1.25pm a 1.30pm. Gallwch gynllunio eich ymweliad o gwmpas yr adegau hyn os hoffech chi.

- Y larwm tân. Rydyn ni'n cael prawf larwm tân bob wythnos. Gallwch gynllunio eich ymweliad o gwmpas hyn os hoffech chi:
    - Yn adeilad y Senedd rydyn ni'n cael prawf larwm tân bob dydd Llun, dydd Mawrth a dydd Mercher am 8.45am
    - Yn adeilad y Pierhead rydyn ni'n cael prawf larwm tân bob dydd Llun am 9.30am.
    - Yn adeilad Tŷ Hywel rydyn ni'n cael prawf larwm tân bob dydd Llun am 9.00am

- Sŵn gwaith adeiladu – fel drilio.

- Sŵn yn dod o ryw ddigwyddiad neu weithgaredd sy'n cael ei gynnal yn un o'r adeiladau.

- Sŵn o'r teledu.

- Mewn rhai mannau efallai y byddwn yn chwarae ffilm neu drac sain sy'n gallu bod yn swnllyd.

- Troliau bwyd. Mae sŵn olwynion y troliau bwyd ar y llawr yn uchel iawn yn y Senedd.

- Yn adeilad y Senedd mae'r bleinds yn agor **yn awtomatig** ac mae hyn yn gwneud sŵn.

  Mae **awtomatig** yn golygu symud ar ei ben ei hun.

- Y sychwyr dwylo yn y toiledau. Maen nhw'n swnllyd iawn.

- Yn y lifft mae llais awtomatig sy'n dweud wrthych pa lawr rydych chi wedi'i gyrraedd.

## Y pethau y gallech eu harogli:

- Efallai y byddwch chi'n arogli paent os oes rhywle yn yr adeilad yn cael ei beintio.

- Efallai y byddwch chi'n arogli pethau glanhau.

- Efallai y byddwch chi'n arogli bwyd mewn rhai mannau.

## Y pethau y gallech eu cyffwrdd:

- Efallai y byddwch chi'n ysgwyd llaw â rhywun. Os nad ydych chi'n hoffi ysgwyd llaw, dywedwch wrth aelod o'r staff.

## Os bydd angen i chi orffwys

Os byddwch chi'n teimlo bod angen i chi fynd i le tawel, gofynnwch i aelod o'r staff. Byddan nhw'n mynd â chi i'r ystafell dawel. Fe gewch chi eistedd a gorffwys yn yr ystafell dawel tan y byddwch chi'n teimlo'n well.

## Rhagor o wybodaeth

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am y pethau fydd yn digwydd ar ddiwrnod eich ymweliad, ffoniwch ni neu anfonwch neges e-bost.

Fe allwn ni drefnu i chi ymweld ar adeg dawel. Gallwn ni hefyd eich helpu gyda phethau eraill fydd yn gwneud eich ymweliad yn hawdd i chi.

Ffoniwch ni ar 0300 200 6565

Anfonwch neges e-bost ar cysylltu@senedd.cymru

# Geiriau anodd

## Awtomatig

Mae rhywbeth awtomatig yn symud ar ei ben ei hun.

## Cloch y Cyfarfod Llawn

Mae Cloch y Cyfarfod Llawn yn dweud wrth Aelodau o’r Senedd i fynd i’r Siambr.

Y Siambr yw enw’r ystafell ble mae’r holl Aelodau o’r Senedd yn cyfarfod.

Dim ond yn adeilad y Senedd mae Cloch y Cyfarfod Llawn yn canu. Gallwch wrando ar y sŵn ar wefan y Senedd: https://senedd.wales/cy/visiting/Pages/Visitors-autism.aspx.

Mae'n canu am 1:25pm a 1:30pm. Gallwch gynllunio eich ymweliad o gwmpas yr adegau hyn os hoffech chi.

## Synhwyrydd

Mae synhwyrydd yn beiriant rydyn ni’n ei ddefnyddio i ddod o hyd i rywbeth - fel metel.

## System dolen sain

Mae **system dolen sain** yn fath arbennig o system sain i helpu pobl sy’n defnyddio cymhorthion clywed i glywed yn well.